Eisteddfod
Talaith a Chadair Powys
EDEYRNION A PHENLLYN
2023

RHESTR TESTUNAU

Ysgol Godre'r Berwyn
Y Bala
Hydref 27 – 28, 2023

Dyluniwyd Logo'r Eisteddfod gan Gwion Aled
Ysgol Godre'r Berwyn.

Croeso'r Cadeirydd

Pwy feddyliai nôl yn 1991, pan ddaeth Eisteddfod Talaith Powys i'r Bala gyntaf, y byddai un o'r macwyaid bach (gwalltog!) 10 oed yn Gadeirydd ar y pwyllgor gwaith yn ystod ymweliad yr Eisteddfod â'r dref yn 2023! Ond ie, wir i chi, y fi ydio ac, fel cael fy newis i fod yn facwy, braint aruthrol yw cael bod yn gadeirydd a hynny ar dîm gweithgar a brwdfrydig iawn.

Yr ydym yn Edeyrnion a Phenllyn wedi hen arfer gwahodd eisteddfodau atom, a'r ddwy ardal wedi gwesteio Eisteddfod Talaith Powys ar nifer o achlysuron. Ond, yn wahanol i'r gorffennol, y tro hwn yr ydym wedi penderfynu uno i rannu ein profiadau a'n brwdfrydedd gyda'n gilydd fel y gallwn drefnu chwip o Eisteddfod gofiadwy.

Ardal Glyndŵr, ardal y Pethe a Llwyd o'r Bryn; ardal Tecwyn Lloyd, O.M. a Syr Ifan ab Owen Edwards, ac ardal sefydlu'r Urdd; ardal Thomas Charles, Betsi Cadwaladr, Michael D. Jones, Gerallt Lloyd Owen, Bob Tair Felin a Tom Ellis. Dyma ardal y Ddyfrdwy, Y Berwyn, Yr Aran, Yr Arenig, Llyn Tegid a llawer, llawer iawn mwy. Oes, mae yna gyfoeth o hanes a diwylliant yn perthyn i ardaloedd Edeyrnion a Phenllyn, ac mae yna frwdfrydedd, a phositifrwydd yn perthyn i'r bobl.

Mae byddin fach o wirfoddolwyr egnïol eisoes yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod trefniadau mewn lle ac mae rhaid i mi fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch yn ddiffuant i bob un ohonynt sydd wedi neilltuo eu hamser i drefnu cyfres o ddigwyddiadau yn enw Eisteddfod Powys.

Er i drefniadau gwesteio'r Eisteddfod ddechrau nôl yn 2020, braf iawn ydi cael gweld ffrwyth llafur misoedd (a sawl blwyddyn!) o drefnu'n dod i'r amlwg gyda seremoni'r cyhoeddi. Rhaid cofio hefyd nad oes angen bod ofn mentro a mabwysiadu ffyrdd newydd o wneud pethau, a moderneiddio rhai elfennau o gynnal Eisteddfod. Os nad ydym yn fodlon trio sut y gwyddom a fydd rhywbeth yn llwyddiannus ai peidio? Braf felly fydd cael gweld a mwynhau rhai elfennau cyfoes, newydd mewn lle fis Hydref 2023. Gobeithio'n fawr y byddwch yn eu croesawu.

Diolch unwaith eto i bawb sydd ynghlwm â threfniadau'r Eisteddfod, a diolch am y gefnogaeth, boed hynny drwy bresenoldeb neu rodd o wobr. Mwynhewch y paratoi ac mi welwn ni chi yn yr Eisteddfod ymhen blwyddyn!

O. Rhys Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith (Hydref 2022)

Cywydd Croeso

Beryl Hughes Griffiths

O wlad y Ddyfrdwy lydan,
Hon a lif o Lan i Lan
Yn ddiog, igam-ogam.
Yn ei lli'n ffyrnig ei llam
Â'i ffosydd hi'n genlli gwyn
O'i hesgair oll yn disgyn.

O'r fawnog laith ei thaith hi
I ninnau a rydd ynni;
O lennydd llonydd y Llyn,
Yna draw hyd Gaer Drewyn.
Pob dawn yn llawn gaiff ei lle
A hithau'n fro y "Pethe."

Yn sgrechian ac yn canu
Yng Nghorwen llawen fu'r llu,
Yn gôr, a hwythau'r lloriau'n
Neidio'n gynt dan draed yn gwau
O foliant i'r Pafiliwn
Heddiw sydd yn syn ddi-sŵn.

Am hynny dewch a mynnwn
Uno'n llu yn y lle hwn.
Yr allwedd i'r gyfeddach
Fydd tyrfa'n y Bala bach.
Dewch er clod i'r traddodiad
Gŵyl yw hon ddwg fri i'n gwlad.

O erwau serth yr Aran
Yn un côr fe ddown â'n cân
I wahodd, o'n bodd, y byd.
Heddiw, noddi celfyddyd
Yw ein nod, dewch yn heidiau
Ar ras, rhaid i'r Ŵyl barhau!

CYMRODORIAETH
EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Elusen Gofrestredig 502565

Sefydlwyd y Gymrodoriaeth yn 1913 dan lywyddiaeth Penfro '*yn cael ei gynorthwyo gan Cadfan a lliaws beirdd, llenorion a cherddorion Powys*' gyda'r diben o sicrhau cydweithrediad cyffredinol yn y Dalaith i gynnal Eisteddfod Flynyddol ac i ddyrchafu safon yr eisteddfodau yn ei thestunau a'i chynhyrchion.

EISTEDDFODAU O FEWN Y DALAITH: Mae'r Gymrodoriaeth erbyn hyn yn rhoi cymorth ariannol i eisteddfodau annibynnol a gynhelir yn rheolaidd o fewn y Dalaith. Dylai'r ceisiadau, ynghŷd â mantolen ariannol wedi'i archwilio, a chopi o Raglen yr Eisteddfod, fod yn llaw'r Trysorydd yn ddi-ffael erbyn y dydd olaf o Ragfyr.

EISTEDDFODAU'R DYFODOL: Cynhelir Eisteddfod 2023 yn Nyffryn Dyfrdwy yn cwmpasu bröydd Edeyrnion a Phenllyn. Cynhelir Eisteddfod 2024 yn Nyffryn Ceiriog. Os oes ardal ag awydd gwahodd Eisteddfod 2025 neu 2026, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda. Mae'r Gymrodoriaeth wedi cofrestru fel elusen, fel y gall pwyllgorau lleol fanteisio trwy wneud ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James Pantyfedwen. Cefnogir Eisteddfodau Powys yn flynyddol gan yr Ymddiriedolaeth hon.

AELODAU: Mae aelodaeth o'r Gymrodoriaeth yn agored i bob Eisteddfodwr a charedigion llên, awen a cherdd ac nid yw'r tanysgrifiad ond £20 am oes. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb a gâr ein diwylliant i ymaelodi. Anfonwch at y Cofiadur:–

Y Parch. Edwin O. Hughes, Gwytheyrn, Pennant,
Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH.
Rhif Ffôn : 01650 521203
e-bost:- eisteddfodpowys@outlook.com

PWYSIG: Nid yw'r Gymrodoriaeth yn derbyn rhagor o Gwpanau na Thlysau fel gwobrau.

Cwpanau sydd i'w dal am flwyddyn i'w dychwelyd os gwelwch yn dda i Mrs Laura Richards, Gwenyndy, Y Foel, Trallwm, Powys (Rhif ffôn : 01938 820142) o leiaf fis cyn yr Eisteddfod.

G*wrtheyrn* (Cofiadur)

CYMRODORIAETH
EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS

Swyddogion 2022/23

Llywydd:	D.Glyn Williams
Cadeirydd:	Tom.I. Morris
Is-Gadeirydd:	John Price
Trysorydd:	Bryn Peryddon Davies

SWYDDOGION YR ORSEDD

Y Derwydd Gweinyddol:	Tom Erfyl
Dirprwy Dderwydd Gweinyddol:	Beryl o Gefnllys
Cyn-Dderwyddon Gweinyddol:	Hedd Bleddyn
	Emyr ap Erddan
	Marlis Ogwen
	Huw Ceiriog
Cofiadur:	Gwrtheyrn
Arwyddfardd:	Pryderi
Dirprwy Arwyddfardd:	Lowri Hywel
Ceidwad y Cledd:	Glandon
Dirprwy Geidwad y Cledd:	Gwernfab
Telynores:	Telynores Powys
Dirprwy Delynores:	Cadi Glwys Telynores Sycharth
Cornydd:	Philip ap Islwyn
Meistresi'r Gwisgoedd:	Marian o Fawddwy
	Eirian Mai
	Beryl o Gefnllys
	Marged Feddyg
Banerwr:	Dafydd Henlle
Dirprwy Fanerwr:	Rhiwarth
Arolygwr Llwyfan a Seremonïau:	Rhian Angharad Ferch Dal
Cynorthwywr Lleol	Edryd o Fethel
Swyddog Cwpanau a Thlysau	Lowri Cadfan

Gwahoddir yn galonnog i bawb ym Mhowys a gâr Lên, Awen a Chân
i ymaelodi â'r Gymrodoriaeth. Tâl am oes £20.
Derbynnir enwau'r cyfryw gan Gwrtheyrn (Cofiadur),
Y Parch Edwin O. Hughes, Gwytheyrn,
Pennant, Llanbrynmair, Powys. SY19 7BH.
Rhif Ffôn: 01650 521203

EISTEDDFOD TALAITH A CHADAIR POWYS EDEYRNION A PHENLLYN 2023

SWYDDOGION AC AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH

SWYDDOGION:

Cadeirydd:

O. Rhys Evans, Y Faenol, Heol Tegid, Y Bala LL23 7BW 07855 441902
Evans.rhys@yahoo.co.uk

Is-gadeirydd:

Llinos Mary Jones, Awelfryn, Gwyddelwern, Corwen LL21 9DQ 07711 169952
llinosmaryjones@btinternet.com

Trysorydd:

Dilys Evans, Tir y Dail, Cae Groes, Y Bala , LL23 7AQ 01678 521475
07957720401
ionawr1@btinternet.com

Ysgrifennydd Ariannol:

Iwan M. Williams, Dolydd, Llandrillo, Corwen LL21 0TD 07866 411726
01490 440717
iwan@iwanmeirion.cymru

Ysgrifenyddion Cyffredinol:

Carwyn a Nerys Siddall, Bryn Cefni, Llanuwchllyn LL23 7TL 01678 540777
carwynsiddall@yahoo.co.uk

Penri Jones, Glannant, Parc, Y Bala LL23 7YW 01678 540647
07854 949836
penrij@gmail.com

SWYDDOGION PWYLLGORAU:

C = Cadeirydd; IG = Is-gadeirydd; Y = Ysgrifennydd; T = Trysorydd

CERDD

C Steffan Prys Roberts steffanprys88@gmail.com
IG Nia Morgan geryllyn@hotmail.co.uk
Y Arfon Griffiths, Nantyllyn, Llanuwchllyn, Y Bala LL23 7DF
01678 540384 / pwyllgorcerddpowys2023@gmail.com

LLEFARU

C Sian Emlyn Edwards sianemlyn@hotmail.co.uk
Y Gwen Edwards, Hen Bost, Parc, Y Bala LL23 7YP
01678 540394 / gweneds1@yahoo.co.uk

LLÊN A BARDDONIAETH

C Beryl H. Griffiths berylh.griffiths@btinternet.com
Y Haf Llewelyn. Brynraber, Llanuwchllyn, Y Bala LL23 7 TW
01678 540206 / llewelyn.brynraber@gmail.com

CERDD DANT A CHANU GWERIN

C Arfon Williams arfon.williams@outlook.com
Y Arfon Gwilym, Uwchafon, Llandderfel, Y Bala LL23 7HG
07974 935755 / arfongwilym@icloud.com

DYSGWYR

C Fiona Collins fionastory3@gmail.com

Y Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN
01490 430207 / nia.morris43@gmail.com

DAWNSIO

C Cari Sioux carisioux@yahoo.co.uk

Y Ann Jones, Rhoshelyg, Tynddol, Llanuwchllyn LL23 7TN
01678 540264 / rhoshelyg@yahoo.com

CELF A CHREFFT

C Dorothy A. Jones llwynmawr@btinternet.com

Y Miriam Roberts, Goleufan, Heol Ffrydan, Y Bala LL23 7RT
07583 702039 / miriamroberts65@yahoo.com

T Rhiannon Evans

DRAMA *(dan ofal **Pwyllgor Gŵyl Ddrama Corwen)***

C Elved Jones elved.jones@gmail.com

Y Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN
01490 430207 / nia.morris43@gmail.com

T Nan Jones

CYLLID

C Llinos M. Jones llinosmaryjones@btinternet.com

Y Iwan Meirion Williams iwan@iwanmeirion.cymru

YR ORSEDD A SEREMONÏAU

C Bethan Edwards bethanedwards973@btinternet.com

Y Carys Williams, Wenallt Bach, Cwmmain, Maerdy, Corwen LL21 0PG.
01678 530252 / carysseu@outlook.com

CYHOEDDUSRWYDD AC ADLONIANT

C Dilwyn Morgan dilwynmorgan@hotmail.co.uk

Y Branwen Williams, Tanrhiw, Y Lôn, Llanuwchllyn LL23 7ST
07917 818284 / branwenhaf@hotmail.com

LLETY A CHROESO

C Nia Jones, Panytyffynnon, Glyndyfrdwy, Corwen
rhysania436@btinternet.com

Y Heledd Jones, Nantybarcud, Llanuwchllyn, Y Bala
01678 540251 / 07745024861 / nantybarcud@hotmail.co.uk

STIWARDIO / MAES A THREFN

Prif Stiwardiaid:

Jac Arthur Jones, Stablau Isa , Rhiwlas, Y Bala LL23 7NP
07772732133 / stablauisa@tiscali.co.uk

Brynle Hughes, Cilcoed, Llidiart y Parc, Corwen LL21 9EL
01490430215 / brynle.hughes@gmail.com

GORUCHWYLIWR LLWYFAN

Edwin Jones, Tŷ Mawr, Carrog, Corwen LL21 9BH
01490 430238 / je.jones@btconnect.com

BEIRNIAID YR EISTEDDFOD

Cerdd:	*Lleisiol*	**Rhiannon Lewis**
		Huw Foulkes
		Luke Mc Call
	Offerynnol a Chyfansoddi	**Owain Llwyd Brown**
Llefaru:		**Carwyn John**
		Lowri Steffan
Cerdd Dant a Chanu Gwerin:		**Llio Penri**
		Sian Eirian
Dawnsio:	*Gwerin / Clocsio*	**Hannah Rowlands**
	Creadigol / Disgo, ayyb	**Hanna Jones**
Llenyddiaeth	*Barddoniaeth*	**Aneirin Karadog**
a Barddoniaeth:	*Rhyddiaith*	**Heiddwen Tomos**
	Llên a Barddoniaeth	
	Ieuenctid	**Aled Lewis Evans**
Adran y Dysgwyr:	*Tlws y Dysgwr*	**Alison Layland**
		a Jeremy Griffiths,
	Rhyddiaith Agored	**Les Barker**
	Rhyddiaith Gynradd	**Sara Wyn Jones**
	Rhyddiaith Uwchradd	**Ceri Lewis**
	Llwyfan (Llefaru Agored)	**Eirian Conlon**
	do. Cynradd ac Uwchradd)	**Menai Williams**
Adran Ddrama:	*Llwyfan*	**Huw Garmon**
	Cyfansoddi	**Gwion Lynch**
Celf a Chrefft:	*Celf; Gwaith 2D a 3D*	**Gareth Owen**
	Ffotograffiaeth ac Instagram	**Geraint Thomas**
	Gosod Blodau	**Ann Hughes**
	Coginio	**Eirian Wyn Thomas**
	Gwaith Llaw	**Llinos Roberts**
		Mary Mars Lloyd
CYFEILYDDION	**Gwerfyl Williams**	
	Elin Rhys Owen	
	Glian Llwyd	
TELYNORION	**Eirian Jones**	
	Dylan Cernyw	

Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod

1. Dylid anfon pob gohebiaeth i'r Ysgrifennydd /ion Cyffredinol (oni nodir yn wahanol). Gellir defnyddio e-bost. Os am dderbyn ateb / gwybodaeth trwy'r post, dylid amgáu amlen â stamp arni.

2. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i benodi beirniaid yn lle rhai sy'n absennol trwy amgylchiadau anorfod. Bydd gan y Pwyllgor hawl hefyd i ddewis beirniaid ychwanegol.

3. Cyflwynir dyfarniad y beirniaid yn unig o'r llwyfan ond gall cystadleuwyr dderbyn copi ysgrifenedig o sylwadau'r beirniad.

4. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod.

5. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod. Gellir cyflwyno gwrthdystiad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Bydd dyfarniad y Pwyllgor yn derfynol ar bob mater.

6. Rhaid i'r ymgeiswyr ar bob cystadleuaeth llwyfan, lle nodir oedran, fod o fewn yr oedran / flwyddyn ysgol briodol ar y 1af Medi 2023

7. Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn bresennol ac ymddangos pan elwir eu henwau yn y Rhagbrofion a'r Cystadlaethau Terfynol neu atelir hwy rhag cystadlu.

8. Canlyniadau'r rhagbrofion i gael eu cyhoeddi ar safle'r Eisteddfod yn unig.

9. Rhoddir manylion am amser a lleoliad rhagbrofion yn Rhaglen y Dydd.

10. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am golled neu ddamwain o unrhyw fath ar safle'r Eisteddfod

11. Nid ystyrir unrhyw gynnyrch a wobrwywyd o'r blaen.

12. Mae'r holl gystadlaethau i'w cynnal dan yr Amodau Cyffredinol hyn - ynghŷd ag Amodau Arbennig yr Adran y mae'r gystadleuaeth yn perthyn iddi. (Gweler Amodau Arbennig y Pwyllgorau Testun)

13. Dylid anfon enwau'r holl ymgeiswyr yn y cystadlaethau llwyfan at Ysgrifenyddion Y Pwyllgorau perthnasol. Gweler y manylion cyswllt isod ar dudalen "Swyddogion Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod".

CWPANAU A GWOBRAU

Rhoddir enwau Rhoddwyr Gwobrau Ariannol a Chwpanau yn Rhaglen y Dydd. Cydnabyddir pob cyfraniad ariannol dros £25 tuag at yr Eisteddfod ac enwau'r Rhoddwyr yn Rhaglen y Dydd.

[*Nid yw'r Gymrodoriaeth yn derbyn rhagor o gwpanau na thlysau fel gwobrau.*]

RHESTR TESTUNAU

ADRAN CERDDORIAETH LLEISIOL AC OFFERYNNOL

(Cyflwynir Tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed.)

LLEISIOL

1. **Unawd Bl.2 ac iau**
   Unrhyw gân allan o gyfrol 'Mae gen i Gân', Leah Owen a Selwyn Griffiths, Curiad
   Gwobrau: 1af: £6.00, 2il: £4.00, 3ydd: £3.00

2. **Unawd Bl.3 a 4**
   Unrhyw gân allan o gyfrol 'Mae gen i Gân', Leah Owen a Selwyn Griffiths, Curiad
   Gwobrau 1af: £8, 2il: £6, 3ydd: £5

3. **Unawd Bl.5 a 6**
   Unrhyw gân allan o gyfrol 'Cynghanedd Cariad 3', J Eirian Jones, Y Lolfa
   Gwobrau 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

4. **Deuawd Bl.6 ac iau**
   'Seren Wen' allan o'r gyfrol 'Mwy o Gynghanedd Cariad', J Eirian Jones a John Beynon Phillips. Y Lolfa
   Gwobrau 1af: £10, 2il £8, 3ydd: £6

5. **Parti Unsain Bl.6 ac iau** (hyd at 12 mewn nifer)
   Unrhyw gân addas ar gyfer Y Diolchgarwch
   Gwobrau: 1af: £30, 2il: £20, 3ydd: £10

6. **Côr Bl.6 ac iau** (dros 12 mewn nifer)
   Unrhyw gân neu garol addas ar gyfer Y Nadolig
   Gwobrau: 1af: £40 a tharian C.A.G Gogledd Cymru, 2il: £30, 3ydd: £20

7. **Band Roc, Pop neu Gyfoes o dan 15 oed**
   Perfformio cân wreiddiol yn arddull y genre neu drefniant o gân gyfoes Gymraeg.
   Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

8. **Unawd Bl.7, 8 a 9**
   Hunan-ddewisiad
   Gwobrau: 1af: £12, 2il: £8, 3ydd: £6

9. **Unawd Bl.10 a dan 19 oed**
   Hunan-ddewisiad
   Gwobrau: 1af: £20, 2il: £15, 3ydd: £10

10. **Deuawd oed Uwchradd**
    Hunan-ddewisiad
    Gwobrau: 1af: £20, 2il: £16, 3ydd: £12

11. **Parti Deusain oed Uwchradd** (hyd at 16 mewn nifer)
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

12. **Côr Ieuenctid o dan 25 oed** (dros 16 mewn nifer)
Unrhyw gyfuniad o leisiau i gyflwyno darn hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £175 a Chwpan Sefydliad y Merched Corwen, 2il: £100, 3ydd: £75

13. **Canu Emyn o dan 30 oed**
Unrhyw emyn allan o 'Caneuon Ffydd'
Gwobrau 1af: £30, 2il: £20, 3ydd: £10

14. **Unawd allan o Sioe Gerdd o dan 19 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £20, 2il: £15, 3ydd: £10

15. **Unawd allan o Sioe Gerdd dros 19 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

16. **Grŵp Canu i Ddysgwyr** (dros 6 mewn nifer)
Unrhyw gân allan o '101 o Gâneuon Pop' Y Lolfa
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

17. **Unawd 19 – 25 oed**
Unrhyw gân o waith Meirion Williams neu Dilys Elwyn-Edwards
Gwobrau: 1af: £100, 2il: £80, 3ydd: £60

18. **Ensemble Lleisiol agored** (3 i 8 mewn nifer)
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £50, 2il: £40, 3ydd: £30

19. **Canu Emyn dros 60 oed**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau 1af: £40 a Chwpan Coffa Rhys Davies, 2il: £30, 3ydd: £20

20. **Deuawd Agored**
Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £60, 2il: £40, 3ydd: £30

21. **Unawd Gymraeg**
Unrhyw unawd gan gyfansoddwr o Gymro
Gwobrau: 1af £100 a Chwpan Coffa Rhys Davies: 2il: £80, 3ydd: £60

22. **Unawd Agored**
Unrhyw unawd allan o Opera neu Oratorio
Gwobrau: 1af: £175 a Chwpan Cyngor Tref Croesoswallt, 2il: £100, 3ydd: £75

23. **Parti neu Gôr Capel neu Gymdeithas** (dros 12 mewn nifer)
i gyflwyno un darn hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1af: £175, 2il: £100, 3ydd: £75

24. **Côr Agored (Merched, Dynion neu Gymysg)** (dros 20 mewn nifer)
i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol
Gwobrau 1af: £300 a Thlws Amaethwyr Corwen, 2il: £200, 3ydd £100

**Cystadleuaeth Newydd addas i'r Adran Cerdd / Cerdd Dant neu Ganu Gwerin:
Cân Ysgafn: deuawd, triawd, pedwarawd neu bumawd addas i'w pherfformio mewn noson o adloniant lleol, gyda phwyslais ar yr hwyliog.
*Gweler Cystadleuaeth **Rhif 57** dan Adran Cerdd Dant / Canu Gwerin am y manylion.*

OFFERYNNOL

25. **Unawd Piano Bl.6 ac iau**
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
Rhaid i'r cystadleuydd feddu ar radd 2 piano neu uwch i gystadlu
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

26. **Unawd Offerynnol (ac eithrio piano) Bl.6 ac iau**
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
Rhaid i'r cystadleuydd feddu ar radd 2 neu uwch i gystadlu
Gwobrau: 1af: £10, 2il: £8, 3ydd: £6

27. **Unawd Offerynnol oed Uwchradd**
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £20, 2il: £15, 3ydd: £10

28. **Unawd Offerynnol agored**
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £40 a Thlws Agored Wynnstay, 2il: £30, 3ydd: £20

29. **Ensemble Offerynnol oed cynradd** (rhwng 2 a 6 mewn nifer)
Cyflwyniad heb fod yn hwy na 3 munud.
Gwobrau: 1af: £30 a Thlws Pwyllgor Addysg Sir Drefaldwyn, 2il: £20, 3ydd: £10

30. **Ensemble Offerynnol agored** (rhwng 2 a 6 mewn nifer)
Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud i'w pherfformio
Gwobrau: 1af: £40, 2il: £30, 3ydd: £20

CYFANSODDI

31. **Tlws y Cerddor Ifanc o dan 21 oed**
Cyfansoddi cân Nadoligaidd unrhyw gyfrwng
Gwobrau: Tlws yr Ifanc a £75 yn rhoddedig gan Aelwyd Penllyn
*Dyddiad cau **1 Medi 2023***

32. **Cyfansoddi Agored**
Cyfansoddi carol Nadolig naill ai i eiriau Gwenfair D. Jones neu eiriau Dorothy Jones. (Gweler isod.)
Gwobr: £100 *Dyddiad cau* ***1 Medi 2023***

Un Seren

Gwesty pum seren yw nod ein byd
Ie, pum seren yn foethau i gyd
Ond llewyrch un seren
Yw angen y byd;
Un seren â'i sylwedd
Yn gariad i gyd,

Bywyd pum seren yw nod ein byd
Ie, pum seren yn gelwydd i gyd;
Ond hen rin y dengair
A goleuni yr Un
All ennyn brawdoliaeth
A bywyd cytûn.

O lety'r anifail a'r preseb drud
Y daw gwarineb i achub y byd.
Llewyrched Un seren
Uwch ein byd di-hid,
Y seren ddisgleiriaf
Yn gariad i gyd.

Gwenfair D. Jones
Llanuwchllyn

Seren Wen

Yn nüwch nos mae myrdd yn ffoi
O'u gwlad, mewn ofn a braw
A'r mamau'n wylo gyda'u plant
Gan sibrwd,"Beth a ddaw?"

Ar Ŵyl y Geni ennyd rown
I gofio'r tad a'r fam
Yn nhrymedd nos, yn ffoi i'r Aifft
Er gwarchod mab di-nam.

A'r baban hwnnw, gynt ar ffo,
Sy'n awr yn Frenin Nef;
"Gwarchodwch dlodion bach y byd!"
Yw ei orchymyn Ef.

Yn enw'r bychan, rhannu wnawn
Fel gwnaeth y doethion dri
Tra'n dilyn seren yn y nen
A'i golau llachar hi.

Dorothy Jones
Llangwm

Amodau Arbennig yr Adran Gerdd

1. Anogir pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ac eithrio'r Her Unawd.
2. Rhaid defnyddio cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ym mhob cystadleuaeth ac eithrio yn y cystadlaethau offerynnol, corau, partïon a sioe gerdd.
3. Y cystadleuwyr yn y cystadlaethau Hunan Ddewisiad i anfon 2 gopi o'r darnau ar gyfer y beirniaid a'r cyfeilydd i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd erbyn Hydref 1af 2023.
4. Penderfynir trefn ymddangos y corau trwy dugel.
5. Bydd cyfraniad o £75 i bob Côr anfuddugol sydd wedi teithio dros 50 milltir i'r Eisteddfod.
6. Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod

Sylwer: Mae'n anghyfreithlon llungopïo copïau heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

ADRAN LLEFARU

(Cyflwynir Tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

33. **Bl. 2 ac iau** – 'Dysgu'. Gwion Hallam o'r gyfrol 'Ticiti-toc' (Gwasg Gomer)
Gwobrau £6, £4, £3

34. **Bl. 3 a 4** – 'Isho Isho Isho!' Carys Jones o'r gyfrol 'Dwi'n byw mewn sŵ gyda'r cangarŵ' (Gwasg Carreg Gwalch)
Gwobrau £8, £6, £5

35. **Bl. 5 a 6** – 'Y Planhigion Hyll', Anni Llŷn o'r gyfrol 'Pawen Lawen'
(Gwasg Carreg Gwalch)
Gwobrau £10, £8, £6

36. **Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau** – 'Arwr y Berwyn', Dorothy Jones o'r gyfrol 'Arwyr'
(Gwasg Carreg Gwalch)
Gwobrau £30, £20, £10

37. **Bl. 7-9** – 'Y Sbectol Hud', Mererid Hopwood o'r gyfrol 'Fesul Gair'
Gol. Tudur Dylan Jones (Gwasg Gomer)
Gwobrau £12, £10, £8

38. **Dan 19 oed** – 'Tai Unnos', Iwan Llwyd o'r gyfrol 'Fesul Gair' Gol. Tudur Dylan Jones (Gwasg Gomer)
Gwobrau £20, £15, £10

39. **Grŵp Llefaru dan 19 oed** – 'Etifeddiaeth', Gerallt Lloyd Owen o'r gyfrol 'Fesul Gair'
Gol. Tudur Dylan Jones (Gwasg Gomer)
Gwobrau £40, £30, £20

40. **Oedran Uwchradd** – Monolog heb fod yn hwy na 5 munud
Gwobrau £30, £20, £15

41. **Prif Gystadleuaeth Lefaru** – Hunan-ddewisiad
Gwobrau £175, £100, £75

42. **Grŵp Llefaru Agored** – Hunan-ddewisiad
Gwobrau £100, £50, £30

43. **Monolog Agored** – Cyflwyno dau ddarn gwrthgyferbyniol heb fod yn hwy na 6 munud.
Gwobrau £40, £30, £20

ADRAN CERDD DANT ACHANU GWERIN

(Cyflwynir Tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

CERDD DANT

44. **Unawd Blwyddyn 2 ac iau:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £6, £4, £3

45. **Unawd Blwyddyn 3 - 4:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £8, £6, £5

46. **Unawd Blwyddyn 5 - 6:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £10, £8, £6

47. **Parti Oed Cynradd:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: 1: Cwpan Coffa Ted Richards (i'w ddal am flwyddyn) a £30; 2: £20; 3: £10.

48. **Unawd Blwyddyn 7-9:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £12, £10, £8

49. **Unawd Blwyddyn 10 ac o dan 19 oed:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

50. **Unawd Agored (dros 19 oed):** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £50, £40, £30

51. **Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Agored:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £60, £40, £30

52. **Côr neu Barti Cerdd Dant Agored:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £100, £50, £30

CANU GWERIN

53. **Unawd Oedran Cynradd:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £10, £8, £6

54. **Unawd Blwyddyn 7 ac o dan 19 oed:** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £20, £15, £10

55. **Unawd Agored (dros 19 oed):** Hunan-ddewisiad
Gwobrau: £50, £40, £30

56. **Côr/Parti Cân Werin Agored:** Dwy gân gyferbyniol.
Gwobrau: £100, £50, £30

Amodau Arbennig Adran Cerdd Dant a Chanu Gwerin

CERDD DANT

i) Pob ymgeisydd i gydymffurfio â rheolau'r Gymdeithas Gerdd Dant.

ii) Rhaid anfon copïau o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a'r cyweirnod i'r Ysgrifennydd erbyn Hydref 1af, 2023.

iii) Rhaid i bob ymgeisydd dderbyn gwasanaeth y Telynor / Delynores Swyddogol.

iv) Ni chaniateir arweinydd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa i unrhyw eitem.

v) Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol.

CANU GWERIN

i) Pob ymgeisydd i anfon copi o'r alaw werin i'r Ysgrifennydd erbyn Hydref 1af.

ii) Rhaid i bob cân gael ei chanu'n ddigyfeiliant.

CYSTADLEUAETH NEWYDD (Cerdd / Cerdd Dant / Gwerin)

57. **Cân Ysgafn Agored:** deuawd, triawd, pedwarawd neu bumawd. Cân addas i'w pherfformio mewn noson o adloniant lleol, gyda phwyslais ar yr hwyliog.
Gellir canu yn ddigyfeiliant neu gyda chyfeiliant o unrhyw fath.
Gwobrau: £60; £40; £30
(Os am arweiniad pellach, cysylltwch ag arfongwilym@icloud.com)

DAWNS

(Adran dawnsio gwerin, stepio, creadigol a chyfoes)

DAWNSIO GWERIN

(Cyflwynir Tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

58. **Dawns Unigol dan 12 oed:** gan ddefnyddio patrymau, stepiau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig heb fod yn hwy na 3munud.
Gwobrau:£10; £8; £6

59. **Grŵp Oedran Bl 6 ac iau (Cynradd)**
"Jig y Ffermwr" Cyhoeddwr: Cymdeithas Ddawns Werin Cymru
Gwobrau: £30; £20; £10

60. **Grŵp Agored Dros 12 oed**
"Mae'n nhw'n D'wedyd", Lois Blake Cymdeithas Ddawns Werin Cymru
Gwobrau: £50; £40; £30

61. **Clocsio/Stepio: Unigol. Pob oed:** Hunanddewisiad i alawon Cymreig. (Dim mwy na 3munud)
Gwobrau: £40; £30; £20

62. **Grŵp Clocsio/Stepio:** Pob Oed (4 neu fwy mewn nifer):
Hunan ddewisiad i Alawon Cymreig (dim mwy na 4 munud)
Gwobrau: £50; £40; £30

DAWNSIO CREADIGOL / AML-GYFRWNG

63. **Unigol Oedran Agored (dim mwy na 3 munud):** Hunanddewisiad
Gwobrau: £40, £30, £20

64. **Grŵp agored (4 neu fwy):** Hunanddewisiad (dim mwy na 4m)
Gwobrau: £50, £40, £30

DISGO / HIP-HOP / STRYD

65. **Unigol Agored:** Hunanddewisiad (2 funud)
Gwobrau: £10, £8, £6

66. Grŵp Agored: (4 neu fwy): Hunanddewisiad (3munud)
Gwobrau: £30, £20, £10

67. Parau – Agored: Hunanddewisiad (dim hwy na 3 munud)
Gwobrau: £40; £30; £20

Amodau Adran Dawnsio

1. Caniateir cerddoriaeth cân Gymraeg neu offerynnol heb eiriau yn unig
2. Caniateir diwyg gyfoes o ran gwisg a cherddoriaeth.
3. Ystyr Amlgyfrwng = Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol.
4. Yn adran creadigol /amlgyfrwng gofynnir am 'synopsis' o'r ddawns ymlaen llaw.
5. Cyfrifoldeb yr hyfforddwyr a'r perfformwyr yw sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad cyn ac ar ôl.
6. Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nac un gystadleuaeth gyda'r un ddawns.
7. Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.

ADRAN LLÊN A BARDDONIAETH

BARDDONIAETH AGORED

68. **Cerdd y Gadair:** Cerdd Gaeth neu Rydd - Egin.
    Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150.
69. **Cywydd:** Cywydd Moliant i Unrhyw Gymeriad Hanesyddol.
    Gwobr: £40
70. **Englyn:** Mur.
    Gwobr £40
71. **Englyn Ysgafn:** Ymateb i Wahoddiad.
    Gwobr £40
72. **Telyneg:** Neges
    Gwobr £30
73. **Soned:** Llyn Tegid
    Gwobr £30
74. **Limrig:** Limrig yn cynnwys y llinell: "Dwi'n cofio fy Nain yn dweud rhywdro..."
    Gwobr £30
75. **Tri thriban:** Tri thriban i dri mynydd neu dair afon.
    Gwobr £30
76. **Pedwar *haiku*:** Y Pedwar Tymor.
    Gwobr £30
77. **Parodi ar unrhyw gân werin.**
    Gwobr £ 30

RHYDDIAITH AGORED

78. **Y Goron:** Gwaith creadigol heb fod dros 10,000 o eiriau ar y thema "Man Gwyn."
Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £150

79. **Stori Fer:** Penderfyniad.
Gwobr £30

80. **Cyfraniad i Bapur Bro ar bwnc o ddiddordeb lleol.**
Gwobr £30

81. **Blog neu Ysgrif:** Fy Hobi.
Gwobr £30

82. **Casgliad o Lên Gwerin Powys.**
Gwobr: £200 (Noddir gan Bwyllgor Gwobr Llanbrynmair)

ADRAN IEUENCTID
RHYDDIAITH A BARDDONIAETH

(Cyflwynir tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

83. **Dan 25ain oed, Tlws Ieuenctid:** Casgliad o waith gwreiddiol.
Gwobr – Tlws a £75

BARDDONIAETH

84. **Blwyddyn 10 i 13:** Torri'n Rhydd
Gwobr £30 i'w rannu.

85. **Blwyddyn 7-9:** O ddewisiad:
Gwobr £30 i'w rannu.

86. **Blwyddyn 5-6:** O ddewisiad.
Gwobr: £20 i'w rannu.

87. **Blwyddyn 4 ac iau:** O ddewisiad.
Gwobr £20 i'w rannu.

RHYDDIAITH

88. **Blwyddyn 10 -13:** Gwaith ffuglen neu ffeithiol – Fy Nghynefin.
Gwobr £30 i'w rannu.

89. **Blwyddyn 7-9:** O ddewisiad.
Gwobr £30 i'w rannu.

90. **Blwyddyn 5-6:** O ddewisiad.
Gwobr £20 i'w rannu.

91. **Blwyddyn 4 ac iau:** O ddewisiad.
Gwobr £20 i'w rannu.

Amodau Adran Llenyddiaeth a Barddoniaeth

1. Rhaid i bob ymgeisydd, wrth anfon y cyfansoddiad, gynnwys ei enw priodol, cyfeiriad a rhif y gystadleuaeth dan sêl mewn amlen gyda'r ffugenw a rhif y gystadleuaeth ar y blaen.
2. Ni dderbynnir unrhyw waith a wobrwywyd o'r blaen.
3. Atelir y wobr ariannol yng nghystadlaethau'r Gadair, y Goron a'r Tlysau oni fydd y buddugol neu ei g/chynrychiolydd yn bresennol.
4. Yr holl gyfansoddiadau i'w teipio neu eu hysgrifennu ar un ochr y ddalen yn unig.
5. Bydd hawlfraint yr holl gyfansoddiadau buddugol yn yr adran Llên yn eiddo Cymrodoriaeth Cadair Powys yn unig am dri mis o ddyddiad yr Eisteddfod a bydd hawl i'w cyhoeddi yng nghyfrol cynhyrchion buddugol yr Eisteddfod.
6. Rhaid i gyfansoddiadau'r Goron a'r Gadair ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên erbyn 1af Gorffennaf, 2023 Y cyfansoddiadau eraill i gyrraedd erbyn 31ain Gorffennaf
7. Dychwelir cyfansoddiadau anfuddugol i ymgeiswyr, os gofynnir amdanynt trwy Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên / Barddoniaeth cyn Tachwedd 1af 2023. (Noder y ffugenw, rhif ac enw'r gystadleuaeth ac amgaeer tâl cludiant post.)
8. Rhaid i'r cyfansoddiadau i gyd fod yn yr iaith Gymraeg.
9. Cynhelir "Pabell Lên" yn ystod yr Eisteddfod i drafod gwaith buddugwyr y prif gystadlaethau llenyddol.
10. Ceir mwy o fanylion am Wobr Llanbrynmair ar wefan Eisteddfod Powys: www.eisteddfodpowys.co.uk

Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod.

YMRYSON Y BEIRDD EISTEDDFOD POWYS 2023

Bwriedir trefnu Ymryson y Beirdd yn ystod Medi / Hydref 2023 dan nawdd y Pwyllgor Llên a Barddoniaeth. Gofynnir i dimau fyddai â diddordeb mewn cystadlu gysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor erbyn 1af Medi.

ADRAN Y DYSGWYR

RHYDDIAITH

92. **Cystadleuaeth Tlws y Dysgwr:** (Agored i ddysgwyr 16 oed a throsodd.)
    a) **Gofynnir am ddarn o waith gwreiddiol** (e.e. llythyr, stori, ysgrif, cerdd, blog, ymson, deialog, dyddiadur, adolygiad o lyfr, rhaglen deledu neu ffilm) ar y thema, "**Heddwch**".
    ***a hefyd*:**
    b) Sgwrs naturiol wedi'i recordio rhwng y dysgwr a siaradwr Cymraeg rhugl. Dim mwy na 5 munud o hyd. Y dysgwr i arwain y sgwrs.
    (*Gwahoddir 3 cystadleuydd i gyfweliad gyda'r beirniaid ar ddiwrnod yr Eisteddfod.*)
    Gwobr: Tlws a £75
93. **Lefel Mynediad:** "Dyma fi" (100 o eiriau)
    Gwobrau: £20, £15, £10
94. **Lefel Sylfaen:** "Dewch am dro" (100 o eiriau)
    Gwobrau: £20, £15, £10
95. **Lefel Canolradd:** "Ysgrifennu e-bost i gwyno" (150 o eiriau)
    Gwobrau: £20, £15, £10
96. **Lefel Agored – gwaith grŵp neu unigol:**
    Fideo hyd at 3 munud: Hysbyseb – "Dewch i siarad Cymraeg" Gwobrau: £20, £15, £10

RHYDDIAITH IEUENCTID (Dysgwyr)

(Cyflwynir tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

97. **Blwyddyn 3 a 4:** "Fy hoff berson"
    Gwobrau: £20 i'w rannu
98. **Blwyddyn 5 a 6:** "Fy hoff le"
    Gwobrau: £20 i'w rannu
99. **Blwyddyn 7:** "Byw yn Iach"
    Gwobrau: £12, £10, £8
100. **Blwyddyn 8:** "Byw yn Iach"
    Gwobrau: £12, £10, £8
101. **Blwyddyn 9:** Deialog – Sgwrs rhwng dau ffrind
    Gwobrau: £12, £10, £8
102. **Blwyddyn 12 a 13:** Ysgrifennu stori neu gerdd ar destun o'ch dewis
    Gwobrau: £15, £12, £10

CYSTADLAETHAU LLWYFAN (DYSGWYR)

(Cyflwynir tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

103. **Blwyddyn 2 ac iau: Llefaru Unigol** "Parti" gan Gwyn Thomas (copi ar gael gan Ysgrifennydd Is-bwyllgor y Dysgwyr).
Gwobrau: £6, £4, £3

104. **Blwyddyn 3 a 4 Llefaru Unigol:** "Teigr yn y Gegin" Hywel Griffiths Teigr yn y Gegin, Y Lolfa, 2013
Gwobrau: £8, £6, £5

105. B**lwyddyn 6 ac iau: Ymgom:** "Y Trysor" gan Edwin ac Eirian Jones
(Copi ar gael gan Ysgrifennydd Is-bwyllgor y Dysgwyr.)
Gwobrau: £10, £8. £6

106. **Blwyddyn 6 ac iau: Llefaru Unigol:** "Gai fy mhêl nôl plîs?" Tudur D Jones. Rhywun y Rhywle, Y Lolfa, 2005
Gwobrau £10, £8, £6

107. **Blwyddyn 6 ac iau: Grŵp Llefaru** (rhwng 6-12 mewn nifer) "Faint sydd ar ôl?"
Non ap Emlyn: Sgram! Cerddi Blasus, Atebol, 2012
Gwobrau £30, £20, £10

108. **Blwyddyn 7-9:** Llefaru Unigol "Oes raid i mi?" Trystan Dafydd, Cerddi Poeth ac Oer, gol Non ap Emlyn, Y Lolfa, 2001
Gwobrau: £12, £10, £8

109. B**lwyddyn 10 a dan 19 oed: Llefaru Unigol** "Golygfa" Elin ap Hywel Ffŵl yn y Dŵr, gol Menna Elfyn, Y Lolfa, 1999
Gwobrau: £20, £15, £10

LLWYFAN / AGORED (Dysgwyr)

(110) **Côr/Parti Dysgwyr** (Gweler Cystadleuaeth **Rhif 16** yn adran Cerdd) : perfformio unrhyw gân o'r gyfrol "100 o Ganeuon Pop", gol. Meinir Wyn Edwards, Y Lolfa, 2010.
Beirniad: Beirniad Cerdd
Gwobrau: £50, £40, £30

111 **Llefaru Unigol:** "Colli Iaith" Harri Webb, *Hoff Gerddi Cymru 2000*, Y Lolfa
Gwobrau: £40, £30, £20

112 **Grŵp Llefaru:** "Bro Edeyrnion" W.E. Williams. *Copi ar gael gan Ysgrifennydd Is-bwyllgor y Dysgwyr*.
Gwobrau: £60, £40, £30

113. **Sgets:** (hyd at 5 munud) "Llyn Tegid"
Gwobrau: £60, £40, £30

Amodau Adran y Dysgwyr

1. Cyfansoddiadau cystadleuaeth Tlws y Dysgwyr, ynghyd â ffurflen gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd Pwyllgor y Dysgwyr erbyn 1af Gorffennaf, 2023.
2. Cyfansoddiadau eraill Adran y Dysgwyr i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Gorffennaf.
3. Cystadleuwyr llwyfan i anfon eu henwau ynghyd â chopi o'r darn/au hunan-ddewisiad ar gyfer y beirniaid erbyn 1af Hydref.

Gweler Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod ac Amodau Adran Llenyddiaeth yr Eisteddfod.

ADRAN CELF A CHREFFT

Gosodir thema **"Afon"** i'r holl gystadlaethau lle nodir "o dan y thema"
(Cyflwynir Tlws bychan i enillwyr cystadlaethau dan 15 oed)

GWAITH 2D mewn unrhyw gyfrwng <u>o dan y thema</u>.

C.1 **Agored dros 19 oed:**
Gwobrau: £10, £8, £6

C.2 **11oed – 18 oed:**
Gwobrau: £8, £6, £4

C.3 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 3,4,5 a 6:**
Gwobrau: £6, £4, £2

C.4 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 0, 1 a 2:**
Gwobrau: £6, £4, £2

GWAITH 3D mewn unrhyw gyfrwng <u>o dan y thema</u>.

C.5 **Agored dros 19 oed:**
Gwobrau: £10, £8, £6

C.6 11oed – 18 oed:
Gwobrau: £8, £6, £4

C.7 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 3,4,5 a 6:**
Gwobrau: £6, £4, £2

C.8 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 0, 1 a 2:**
Gwobrau: £6, £4, £2

FFOTOGRAFFIAETH <u>o dan y thema</u>.

C.9 **Agored dros 19 oed:**
Gwobrau: £10, £8, £6

C.10 **11oed – 18 oed:**
Gwobrau: £8, £6, £4

C.11 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 3,4,5 a 6:**
Gwobrau: £6, £4, £2

C.12 **Ysgol Gynradd – Blynyddoedd 0, 1 a 2:**
Gwobrau: £6, £4, £2

GWAITH CYFRWNG INSTAGRAM

Llun ar blatfform cyfrwng cymdeithasol 'Instagram' sy'n dangos yr ardal ar ei gorau. *Gellir postio'r llun gyda'r hashtag #EisteddfodPowys2023. Sicrhewch fod eich proffil yn gyhoeddus a chynnwys enw eich cyfrif ar y ffurflen gofrestru. Caniateir defnyddio hidlyddion (filters) o fewn yr app.*

C.13 **Agored dros 19 oed:**
Gwobrau: £10, £8, £6

C.14 **11oed – 18 oed:**
Gwobrau: £8, £6, £4

CELFYDDYD CARTREF

Gosod Blodau – Cyflwynir Cwpan David Peate (i'w dal am flwyddyn) am y trefniant gorau yn adran Gosod Blodau.

C.15 **Agored dros 19 oed** – maint dim mwy na 60cm x 60cm
Gwobrau: £10, £8, £6

C.16 **11oed – 18 oed** – maint dim mwy na 60cm x 60cm
Gwobrau: £8, £6, £4

C.17 **Oedran Ysgol Gynradd** – maint dim mwy na 4ocm x 40cm
Gwobrau: £6, £4, £2

Coginio – Cyflwynir Tlws am yr eitem orau yn adran Coginio.

C.18 **Agored: dros 19 oed** – Picnic i ddau mewn cynhwysydd (4 eitem yn unig i'w beirniadu). *Caniateir gofod o 50cm sgwâr.*
Gwobrau: £10, £8, £6

C.19 **Agored: dros 19 oed** – Bara Brith heb furum.
Gwobrau: £10, £8, £6

C.20 **11 – 18 oed:** 4 Myffin Melys
wobrau: £10, £8, £6

C.21 **11 – 18 oed:** Quiche
Gwobrau: £10, £8, £6

C.22 **Oedran Ysgol Gynradd:** 4 Fflap Jac
Gwobrau: £6, £4, £2

Gwaith Llaw

C.23 **Agored: dros 19 oed:** Gwau neu grosio penwisg.
Gwobrau: £10, £8, £6

C.24 **Agored: dros 19 oed: Gwnio:** Cyflwyno cwpled o awdl "Afon" Gerallt Lloyd Owen mewn unrhyw gyfrwng.
Gwobrau: £10, £8, £6

C.25 **11oed – 18oed:** Ail-gylchu gwastraff i greu bwrdd adar.
Gwobrau: £8, £6, £4

C.26 **Oedran Ysgol Gynradd:** Ail-gylchu gwastraff i greu cynhwysydd i fwydo adar.
Gwobrau: £6, £4, £2

Amodau Arbennig ar gyfer Adran Celf a Chrefft

1. Rhaid i'r holl gynnyrch fod yn waith y cystadleuydd.

2. Dim eitemau i gael eu golchi na'u glanhau.

3. **PWYSIG:**
Cynnyrch Crefftau (Gwaith 2 a 3D, Ffotograffiaeth, Gwaith Instagram (*ar ffon-gof neu gryno ddisg*), Celfyddyd Cartref a Gwaith Llaw) i gyrraedd **Canolfan Cantref, Heol Plase, Y Bala** rhwng 9.00 am ac 1.00pm **dydd Llun 23 Hydref.**

Cynnyrch Coginio, a Gosod Blodau i gyrraedd **Canolfan Cantref** rhwng 9.00am ac 1.00pm **dydd Mawrth 24 Hydref**. Byddant yn cael eu beirniadu yno ar yr un diwrnod.

Rhoddir derbynneb am bob eitem a ddaw i law. Rhaid dangos y rhain pan gesglir yr eitemau. Gellir casglu'r holl gynnyrch o Cantref rhwng 12.00 a 4.00 ddydd Iau 26ain Hydref.

4. **Dylid cyflwyno ffurflen gystadlu gyda'r gwaith / cynnyrch a hefyd amlen, dan sêl, ynghlwm wrth bob eitem, yn cynnwys:**

i) rhif y gystadleuaeth
ii) enw'r gystadleuaeth
iii) ffugenw'r cystadleuydd
iv) enw a chyfeiriad y cystadleuydd
v) blwyddyn ysgol (os yn gystadleuaeth oed ysgol).

Rhowch rif y gystadleuaeth, ffugenw a dosbarth ysgol (os yn berthnasol) yn unig ar glawr yr amlen.

5. Eiddo'r cystadleuydd fydd yr holl gynnyrch.

6. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i'r cynnyrch.

7. Bydd barn y beirniad yn derfynol.

8. **Sylwer: Ni chynhelir arddangosfa ar ddyddiau'r Eisteddfod. Bydd pob eitem yn cael ei ffilmio wedi'r beirniadu a dangosir y cynnyrch yn rhithiol ar lŵp barhaol ar sgrin(au) yng nghyntedd / ffreutur Ysgol Godre'r Berwyn.**

9. Os oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn cystadlu ni chaniateir iddo/iddi fod yn bresennol yn ystod y beirniadu.

ADRAN DRAMA

(*Sylwer fod yr adran hon dan ofal Pwyllgor Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch.*)

Cynhelir yr Ŵyl Ddrama yn Neuadd Edeyrnion, Corwen 1af – 6ed Mai 2023.

Cysyllter â'r Ysgrifennydd,
Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN
am wybodaeth bellach. (Gw. Ffurflen gystadlu isod.)
Rhif ffôn: 01490 430207 **e-bost:** nia.morris43@gmail.com
Bydd angen i'r holl wybodaeth fod yn llaw'r ysgrifennydd erbyn 31 Mawrth, 2023

Cystadlaethau Llwyfannu Drama

D.1 **Perfformio drama un act yn Gymraeg – Agored**
Gwobrau: 1. £100 2. £80 3. £60

D.2 **Perfformio drama un act yn Gymraeg – dan 30 oed**
Gwobrau: 1. £80 2. £60 3. £50

D.3 **Perfformio drama un act yn Gymraeg – dan 18 oed**
Gwobrau: 1. £80 2. £60 3. £50

D.4 **Perfformio monolog neu ymgom – Agored**
Cyflwyniad o ddrama, darn o ryddiaith sydd wedi ei gyhoeddi neu waith gwreiddiol addas. Caniateir propiau syml yn unig ar gyfer perfformiad hyd at 4 munud.
Gwobrau: 1. £40 2. £20 3. £10

Cyfansoddi – Adran Drama

D.5 **Medal y Dramodydd**
Cystadleuaeth ysgrifennu drama un act dim mwy na 40 munud o hyd.
Y gwaith i'w gyflwyno i ysgrifennydd y Pwyllgor Drama erbyn Ebrill 1af, '23.
Gwobr: Medal a £75

Beirniad Llwyfan: Huw Garmon
Beirniad Cyfansoddi Drama Fer: Gwion Lynch

Amodau Adran Drama

1. Rhaid i gyfansoddiadau cystadleuaeth Y Fedal Ddrama ynghyd â'r ffurflen gystadlu gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Drama **erbyn 1af Ebrill, 2023.**
2. Rhaid i bob cwmni sy'n cystadlu ar Actio Drama anfon copi o'r ddrama ynghyd â'r ffurflen gystadlu at Ysgrifennydd y Pwyllgor Drama **erbyn 31ain Fawrth, 2023.**
3. Rhaid i bob cystadleuydd monolog /ymgom anfon y ffurflen gystadlu at Ysgrifennydd y Pwyllgor Drama **erbyn 31ain Fawrth, 2023.**
4. Disgwylir i bob ymgeisydd ddod a chopi o'r monolog / ymgom gyda nhw i'w roi i'r beirniad ar y noson.
5. Rhaid i bob cwmni ofalu a thalu am ei hawl perfformio ei hun.
6. Telir £30 i bob cwmni aflwyddiannus.
7. Rhaid gosod llwyfan mewn chwarter awr. NODER – Llenni sydd yng nghefn y llwyfan yn Neuadd Edeyrnion.
8. Mae dyfarniad y beirniad yn derfynol.
9. Rhaid i bob cwmni ofalu am ei ddodrefn / set ei hun.
10. Rhaid i bob cwmni gystadlu o fewn ei ddewis oedran.
11. Ni ellir newid noson perfformiad.
12. Ni chaniateir fflam noeth ar y llwyfan rhag achosi tân.
13. Tlysau a chwpanau a gyflwynir yn flynyddol gan yr Ŵyl i'w dychwelyd i'r Ysgrifennydd ddechrau mis Ebrill (h.y. mis cyn yr Ŵyl).

Gweler hefyd Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod

DYDDIADAU I'W COFIO 2023

Gweler manylion cyswllt ysgrifenyddion yr adrannau perthnasol ar tt. 5 – 6.

DYDDIADAU PWYSIG

Mawr. 31	Ffurflenni cystadlu **Actio Drama** a chyflwyno **monolog** / **ymgom** i gyrraedd Ysgrifennydd Adran Drama.
Ebrill 1	Cyfansoddi Drama: **Medal y Dramodydd**: Y sgript a'r ffurflen gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd Adran Drama
Mai 1-6	**Gŵyl Ddrama Eisteddfod Powys 2023 yn Neuadd Edeyrnion, Corwen**
Gorff. 1	Cyfansoddiadau'r **Gadair** a'r **Goron** i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Barddoniaeth + ffurflen gystadlu.
Gorff. 31	Cyfansoddiadau Adran **Llên a Barddoniaeth** ac **Adran Llenyddiaeth Dysgwyr** ynghyd â Ffurflen Gystadlu i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên / Barddoniaeth neu Ysgrifennydd Pwyllgor Cystadlaethau'r Dysgwyr fel bo'n berthnasol.
Medi 1	Cynnyrch Adran **Cyfansoddi Cerdd** i gyrraedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd.
Medi 1	Cystadleuwyr yn yr **Adran Gerdd** i anfon eu henwau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd ynghyd â 2 gopi o'r darnau ar gyfer y Beirniad a'r Cyfeilydd.
Medi 1	Enwau'r timau ar gyfer Cystadleuaeth Ymryson y Beirdd i Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên a Llefaru.
Hyd. 1	Cystadleuwyr i anfon eu henwau ynghŷd â chopi o'r geiriau, enw'r gainc, y llyfr y ceir y gainc ynddo, a'r cyweirnod i Ysgrifennydd **Adran Cerdd Dant.**
Hyd. 1	Cystadleuwyr **Canu Gwerin** i anfon eu henwau ynghŷd â chopi o'r geiriau i Ysgrifennydd yr Adran Cerdd Dant / Canu Gwerin.
Hyd. 1	Cystadleuwyr yn **Adran Llefaru** i anfon eu henwau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Llefaru ynghyd â chopi o'r darn/au ar gyfer y Beirniad os yn hunanddewisiad.
Hyd. 1	Cystadleuwyr **Llwyfan Adran Dysgwyr** i anfon eu henwau i Ysgrifennydd Pwyllgor y Dysgwyr ynghŷd a chopi o'r darn/au ar gyfer y Beirniad os yn hunanddewisiad.
Hyd. 1	Cystadleuwyr Adran Dawnsio i anfon eu henwau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Dawnsio
Hyd. 23 (Llun)	Cynnyrch Celf 2D a 3D, Ffotograffiaeth, Gwaith Instagram (*ar ffon-gof neu gryno ddisg*) a Chrefftau llaw i gyrraedd **Canolfan Cantref, Heol Plase, Y Bala rhwng 9.00am – 1.00pm gyda'r ffurflen gystadlu..**
Hyd. 24 (Mawrth)	Cynnyrch Coginio a Gosod Blodau i **Ganolfan Cantref, Heol Plase, Y Bala rhwng 9.00am a 1.00pm gyda'r ffurflen gystadlu.**
Hyd. 26 (Iau)	Cystadleuwyr Celf a Chrefft i gasglu eu cynnyrch o Ganolfan Cantref **rhwng 12.00 a 4.00 o'r gloch.**
Hyd. 27/28	**Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys Edeyrnion a Phenllyn 2023 yn Ysgol Godre'r Berwyn**

EISTEDDFOD POWYS EDEYRNION A PHENLLYN 2023
FFURFLEN GYSTADLU
GWŶL DDRAMA CORWEN A'R CYLCH
Mai 1 – 6, 2023
Neuadd Edeyrnion, Corwen

RHIF Y GYSTADLEUAETH:

Enw'r Cwmni	
Enw'r Ddrama	
Awdur	
Hyd y Perfformiad	
Enw'r Cynhyrchiad	

Dylid anfon copi o'r ddrama ar gyfer y beirniad gyda'r ffurflen gystadlu.

***Nodwch ar ail dudalen y ffurflen hon enwau'r cymeriadau a'r actorion, ac unrhyw fanylion yr hoffech iddynt ymddangos yn y rhaglen.*

NODWCH UNRHYW NOSON *NAD* YW'N GYFLEUS I'R CWMNI BERFFORMIO

LLUN	MAWRTH	MERCHER	IAU	GWENER	SADWRN

ENW'R CYSWLLT	
CYFEIRIAD	
RHIF FFÔN NEU E-BOST	
ARWYDDWYD	

ENW'R DDRAMA	
ENW'R CYNHYRCHYDD	
ENW/AU TREFNYDD/WYR LLWYFAN / GOLEUO/SAIN/COFWEINI	

CAST Y DDRAMA YN NHREFN YMDDANGOSIAD **X** OS YN BERTHNASOL

ENW'R CYMERIAD	ENW'R ACTOR	DAN 30	DAN 18

Noder unrhyw wybodaeth ychwanegol ac anghenion goleuo /llwyfan / cefndir ayyb.

Y ffurflen gais a chopi o'r ddrama i'w hanfon at Ysgrifennydd Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch: Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN. Rhif ffôn: 01490 430207 ebost: nia.morris43@gmail.com **erbyn Mawrth 31ain, 2023.**

ADRAN DRAMA
CYSTADLEUAETH MONOLOG NEU YMGOM

Hoffwn gystadlu ar y gystadleuaeth RHIF: **D4**

Enw'r Cystadleuydd /wyr	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn / e-bost	
Teitl y Fonolog / Ymgom	

Y ffurflen gais a chopi o'r sgript i'w anfon at Ysgrifennydd Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch: Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN. Rhif ffôn: 01490 430207 / ebost: nia.morris43@gmail.com
erbyn Mawrth 31ain, 2023.

ADRAN DRAMA
CYSTADLEUAETH YSGRIFENNU DRAMA FER
MEDAL Y DRAMODYDD

Hoffwn gystadlu ar y gystadleuaeth RHIF:	**D5**
Ffugenw	
Enw	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn / e-bost	

Y ffurflen gais a chopi o'r sgript i'w anfon at Ysgrifennydd Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch: Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen LL21 9BN. Rhif ffôn: 01490 430207 / ebost: nia.morris43@gmail.com **erbyn Mawrth 31ain, 2023.**

(Gellir llungopio copiau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen.)

FFURFLEN GYSTADLU LLWYFAN
ADRANNAU CERDD, LLEFARU, CERDD DANT / CANU GWERIN / DYSGWYR / DAWNSIO
I SYLW YSGRIFENNYDD / ION YR IS-BWYLLGOR/AU PRIODOL

ENW: CYSTADLEUYDD / PARTI / CÔR	
FFUGENW (os yn gymwys)	
ENW'R CYSWLLT	
CYFEIRIAD	
RHIF/AU FFÔN	
E-BOST	

Rhif y Gystadleuaeth	Adran

Yr wyf/ydym yn ymrwymo i gydymffurfio â'r amodau arbennig a chyffredinol sydd yn y Rhestr Testunau.

Y ffurflen hon i'w dychwelyd i Ysgrifennydd / ion y Pwyllgorau / Adrannau priodol **erbyn y dyddiadau a nodir**

(Gweler manylion cyswllt ar tt. 5 – 6)

(Gellir llungopio copiau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen.)

EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS
EDEYRNION A PHENLLYN 2023
HYDREF 27 – 28 2023

FFURFLEN GYSTADLU / ENTRY FORM

ADRAN CELF A CHREFFT / ARTS AND CRAFTS SECTION

Adran *Section*	Rhif y Gystadleuaeth *Competition Number*	Ffugenw *Nom-de-Plume*	Disgrifiad o'r eitem *Item Description*

Enw *Name*

Cyfeiriad *Address*

Ffôn *Tel.*

E-bost *E-mail*

Y ffurflen hon i'w chyflwyno gyda'r gwaith / cynnyrch i
Ysgrifennydd y Pwyllgor Celf a Chrefft.
Gweler cyfarwyddiadau ar dudalen **DYDDIADAU I'W COFIO 2023** (tud. 27)
This form to accompany the work / produce to the
Arts and Crafts Committee, Secretary.
Refer to instructions re. Dyddiadau i'w Cofio 2023 (page 27)

(Gellir llun-gopio copïau ychwanegol o'r ffurflen hon yn ôl yr angen.)

CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Elusen Gofrestredig 502565

Eisteddfod Cymrodoriaeth Talaith a Chadair Powys
Edeyrnion a Phenllyn 2023

CYFRANIADAU ARIANNOL A NODDI GWOBRAU

Mae Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, gyda'i holl draddodiadau yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol i sicrhau llwyfannu gŵyl llwyddiannus sy'n adlewyrchu safonau ei gorffennol. Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Cymrodoriaeth Powys Edeirnion a Phenllyn 2023 yn apelio am gyfraniadau a chefnogaeth hael i'r Ŵyl.

Gellir cyfrannu'n uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol, neu noddi gwobrau cystadlaethau penodol neu un o brif seremonïau neu ddigwyddiadau'r Eisteddfod.

Dylid anfon eich cyfraniadau i'r Trysorydd. Rhestrir enwau cyfranwyr ariannol o dros £25 yn Rhaglen y Dydd. Derbynnir pob rhodd yn ddiolchgar.

Mae'r Gymrodoriaeth yn Elusen gofrestredig ac felly yn cael hawlio Rhodd Cymorth ar bob rhodd gan unigolion neu gwmnïau sy'n drethdalwyr yn y DU. Apeliwn felly am gyfranwyr sy'n drethdalwyr yn y DU i gwblhau'r ffurflen Rhodd Cymorth.

Sieciau yn daladwy i: "Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn 2021"*
(**Cofrestrwyd y cyfrif banc cyn gorfod gohirio'r Eisteddfod.*)

FINANCIAL CONTRIBUTIONS AND PRIZE SPONSORSHIP

The success of the Powys Provincial and Chair Eisteddfod, with all its traditions, demands adequate financial backing to ensure the staging of a festival worthy of its past. The Executive Committee of the Cymrodoriaeth Powys Eisteddfod Edeyrnion and Penllyn 2023 is appealing for kind donations and generous support for this event. Contributions can be made directly to the general fund, to sponsoring specific competition prizes, to sponsorship of one of the main ceremonies or to any Eisteddfod related events.

Donations should be passed to the Treasurer. The names of all financial contributors, donating in excess of £25 will be printed in the Eisteddfod Programme. All donations will be gratefully received.

The 'Gymrodoriaeth' is a registered charity and is therefore entitled to claim Gift Aid on all donations from UK tax- paying companies or individuals. If you are a UK tax payer please complete the relevant section on the donation form.

Cheques payable to: "Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn 2021"*
(**Bank account registered before the Eisteddfod was postponed.*)

TREFN ARBENNIG TALIADAU / CYFRANIADAU BACS

Trosglwyddiadau uniongyrchol trwy'r banc

Enw'r Cyfrif:	Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn 2021 *
Banc:	HSBC
Cod Didoli:	40-09-01
Rhif y Cyfrif:	51279521

* Rhaid cadw'n union at y geiriad hwn oherwydd cofrestrwyd y cyfri banc cyn gorfod gohirio'r Eisteddfod oherwydd y cyfnod clo Covid.

Mae taliadau uniongyrchol yn osgoi ffioedd am fancio sieciau ac arian parod.

EISTEDDFOD CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS EDEYRNION A PHENLLYN 2023

FFURFLEN CYFRANIAD / NAWDD

CONTRIBUTION / SPONSORSHIP FORM

Enw *Name*	
Cyfeiriad *Address*	
Côd Post *Post Code*	

Dewiswch un opsiwn *Please choose one option*

* Amgaeaf siec / Arian Parod am *I enclose a cheque / cash for* £ _____ yn daladwy i *payable to* "Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn 2023"

Neu / *Or*

** Rwyf yn cyfrannu y swm uchod trwy drosglwyddiad banc uniongyrchol (BACS).
I am arranging a direct bank transfer (BACS) for the above sum.
Gweler manylion uchod / *See details above*

Nodwch isod os gwelwch yn dda os dymunir noddi adran neu gystadleuaeth arbennig.
Please specify below if you wish to sponsor a particular section or competition.

DATGANIAD RHODD-GYMORTH

Os dymunwch i'r Eisteddfod, trwy'r Gymrodoriaeth, fanteisio ar nawdd y Cynllun Rhodd-Gymorth a fyddech mor garedig â llofnodi'r datganiad isod
(* dileu fel yn briodol)

* Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin fy rhodd fel Rhodd-Gymorth.

* Dymunaf i Eisteddfod Talaith a Chadair Powys drin yr holl roddion a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn hyd oni ddywedaf yn wahanol fel Rhodd-Gymorth.

Rwyf yn nodi bod rheidrwydd arnaf dalu swm sydd o leiaf yn cyfateb i'r dreth sy'n cael ei dynnu gan yr Eisteddfod oddi wrth y rhodd yma (25c am bob £1 a roddwch ar hyn o bryd)

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____

Anfoner pob rhodd ynghyd â'r ffurflen hon
i Drysorydd Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn.

GIFT-AID DECLARATION

If you wish the Eisteddfod, through the Gymrodoriaeth, to benefit from the Gift-Aid Scheme would you kindly sign the declaration below
(*delete as necessary)

* I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat my donation as Gift-Aid

* I want the Powys Provincial and Chair Eisteddfod to treat all donations I make from the date of this declaration until I notify you otherwise as Gift-Aid.

I note that I must pay an amount of income tax at least equal to the tax that is reclaimed by the Eisteddfod on this donation (currently 25p for every £1 you give)

Signed _____

Date _____

Please send all donations together with this form to the Treasurer,
Eisteddfod Powys Edeyrnion a Phenllyn.

£1.00

Dyluniwyd a chysodwyd yn Y Bala gan **Nereus**
Ffôn: 01678 521229 e-bost: dylannereus@btinternet.com